



Llywodraeth Cymru Dogfen ymgynghori

Ymgynghori ar ddiwygio cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru

- **Budd-daliadau'r goroeswyr o dan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 a Chynllun Digolledu 2007, yn ogystal â mân ddiwygiadau eraill i Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 a 2007.**
- **Mân ddiwygiadau i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2015 a Threfniadau Trosiannol**

Dyddiad cyhoeddi: 28 Medi 2017

Cam gweithredu: Ymatebion erbyn 21 Rhagfyr 2017

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Trosolwg

Rydym yn ymgynghori ar ddiwygio cynllun pensiwn y diffoddwyr tân 1992 a chynllun digolledu 2007 a fyddai'n caniatáu i wŷr neu wragedd priod neu bartneriaid sifil diffoddwyr tân cymwys sy'n eu goroesi gadw eu hawl i gael pensiwn goroeswyr pe baent yn ailbriodi neu'n dechrau partneriaeth sifil newydd.

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn yn ystyried mân ddiwygiadau i gynlluniau 1992, 2007 a 2015.

Sut i ymateb

I ymateb i'r ymgynghoriad, llenwch y ffurflen ar-lein sydd ar gael yma:

Fel arall, gall ymatebwyr ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar wahân, a'i hanfon drwy'r e-bost i fire@gov.wales

neu ei anfon i'r cyfeiriad isod.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw **dydd Iau 21 Rhagfyr 2017**

Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau o'r ddogfen hon ar gael ar gais mewn print bras, mewn Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Gwefan yr ymgynghoriad:

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Gwasanaethau Tân
Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol
Llywodraeth Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

e-bost: fire@gov.wales

Ffôn: 0300 062 8226

Diogelwch data

Sut y byddwn yn defnyddio'r sylwadau a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er

mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n fater pwysig inni ei ystyried. Fodd bynnag, gallai fod rhesymau pwysig weithiau dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

YMGYNGHORIAD AR DDIWYGIO:-

- **BUDD-DALIADAU'R GOROESWYR O DAN GYNLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN 1992 A CHYNLLUN DIGOLLEDU 2007, YN OGYSTAL Â MÂN DDIWYGIADAU ERAILL I GYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN 1992 A 2007**
- **MÂN DDIWYGIADAU I GYNLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN 2015 A THREFNIADAU TROSIANNOL**

CYFLWYNIAD

1. Bwriad yr ymgynghoriad hwn yw cael barn ar ddiwygiadau i'r gwahanol gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân 2007. Byddai'r newidiadau arfaethedig mwyaf arwyddocaol yn diwygio Cynllun 1992 a'r Cynllun Digolledu i ganiatáu i wŷr a gwragedd priod a phartneriaid sifil diffoddwyr tân cymwys sy'n eu goroesi gadw eu budd-daliadau pe byddent yn ailbriodi neu yn cychwyn partneriaeth sifil newydd. Newidiadau arfaethedig eraill yw diwygio mân wallau yn y gynlluniau. Maent hefyd yn egluro'r ddarpariaeth drosiannol a wnaed gan Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru)(Diwygio a Darpariaethau Trosiannol) 2016 i wneud yn glir nad yw cyfraniadau'r cyflogwr na chyfraniadau budd-daliadau ychwanegol yn berthnasol i'r ddarpariaeth hon.
2. Nodir manylion pellach o'r diwygiadau arfaethedig isod.

GORCHYMYN DRAFFT GYNLLUNIAU PENSIWN A CHYNLLUN DIGOLLEDU'R DIFFODDWYR TÂN (CYMRU) (DIWYGIO) 2018 (Atodiad 2)

Budd-daliadau goroeswyr o dan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 a'r Cynllun Digolledu

3. Pan fo aelod yn marw, mae Cynllun 1992 yn darparu ar gyfer talu budd-daliadau a dyfarndaliadau penodol i briod neu bartner sifil yr aelod hwnnw (budd-daliadau goroeswyr). Ar wahân i hyn, mae'r Cynllun Digolledu, sydd ar gyfer pob aelod (neu y rhai sy'n gymwys i fod yn aelod) o gynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân, yn darparu digollediad pan fo diffoddwyr tân yn marw neu'n cael eu hanafu ar ddyletswydd. Pan fo marwolaeth yn digwydd, mae gwŷr a gwragedd priod, partneriaid sifil neu ddibynyddion yr unigolion hynny yn cael eu digolledu: mae'r Cynllun yn darparu dyfarndaliadau (a elwir yn Ddyfarndaliadau Arbennig neu Estynedig) ar gyfer gwŷr a gwragedd priod a phartneriaid sifil bob diffoddwr tân sy'n marw mewn amgylchiadau penodol.
4. Ar hyn o bryd, yng Nghynllun 1992, mae gwŷr a gwragedd priod a phartneriaid sifil diffoddwyr tân sy'n eu goroesi yn colli eu budd-daliadau pe byddent yn ailbriodi neu'n cychwyn partneriaeth sifil newydd. Er hynny, mae gan yr Awdurdodau Tân ac Achub y disgresiwn i dalu'r holl fudd-daliad neu ran ohono fel y maent yn gweld yn dda os daw'r briodas honno neu'r bartneriaeth sifil i ben ar ôl hynny. Mae darpariaethau tebyg yn berthnasol i unrhyw fudd-daliadau a delir o dan y Cynllun Digolledu i wŷr a gwragedd priod neu bartneriaid sifil aelodau o Gynllun 1992 sy'n eu goroesi (neu goroeswyr y rhai hynny a oedd yn gymwys i ymuno â Chynllun 1992 ond a ddewisodd i beidio â gwneud hynny).

5. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y darpariaethau hyn, llawer ohonynt o'r cyfnod cyn datganoli, yn fwy llym nag y gellir ei gyfiawnhau. Maent yn cosbi partneriaid diffoddwyr tân sydd mewn profedigaeth dim ond oherwydd eu bod wedi cychwyn perthynas barhaol newydd. Wrth wneud hyn, gallent fod yn gwahaniaethu yn afresymol ar sail statws priodasol. Mae hyn yn digwydd oherwydd nad yw pobl mewn profedigaeth sy'n sengl neu sy'n cychwyn perthynas heb briodi na ffurfio partneriaeth sifil yn dioddef colli unrhyw fudd-daliadau. Gallai'r darpariaethau hefyd wahaniaethu yn anuniongyrchol ar sail ffydd grefyddol, pan fo'r ffydd honno yn gwahardd cyd-fyw heb briodi neu gychwyn partneriaeth sifil. Mae'r achos dros wneud newidiadau yn arbennig o gryf o ystyried y risg uchel o farwolaeth y mae diffoddwyr tân yn ei hwynebu yn rhan o'u gwaith bob dydd. Oherwydd hynny, rydym wedi creu deddfwriaeth ddrafft i ddiwygio Cynllun 1992 a'r Cynllun Digolledu er mwyn caniatáu i oroeswyr y diffoddwyr tân cymwys gadw eu budd-daliadau pe byddent yn ailbriodi neu yn cychwyn partneriaeth sifil newydd.
6. Gan y gellir dadlau bod hyn yn anghyfiawnder parhaus i bobl mewn profedigaeth, mae achos mewn egwyddor dros wneud y newidiadau hyn yn ôl-weithredol, h.y. adfer (ac o bosibl ôl-ddyddio) budd-daliadau goroeswyr sydd wedi'u tynnu'n ôl oddi wrth bobl sydd wedi ailbriodi neu gychwyn partneriaethau sifil newydd. Rydym yn disgrifio dewisiadau ar gyfer gwneud hyn yn fwy manwl isod.

Dewis 1 - cyflwyno darpariaeth a fydd yn gwrthdroi'r ddarpariaeth bresennol yn llwyr heb bennu dyddiad cymhwyso. Ni fyddai pensiynau a dyfarndaliadau goroeswyr yn cael eu tynnu'n ôl mwyach yn dilyn ailbriodi, neu gofrestru partneriaeth sifil, a byddai pensiynau goroeswyr a dynnwyd yn ôl ar unrhyw adeg flaenorol yn cael eu hadfer, gan gynnwys yr hawl i unrhyw arian rhodd oherwydd anaf nad yw wedi ei dalu, a chan ôl-ddyddio yn llwyr hyd at y pwynt tynnu'n ôl.

Dewis 2 -cyflwyno darpariaeth a fydd yn caniatáu i oroeswyr sy'n ailbriodi neu sy'n cychwyn partneriaeth sifil ar ddyddiad penodol yn y gorffennol, neu ar ôl hynny, (1 Ebrill 2015) gadw eu hawl i fudd-daliadau goroeswyr, ac yn ogystal â hyn adfer budd-daliadau a gollwyd i bob goroeswr a ailbriododd neu a gychwynnodd bartneriaeth sifil cyn y dyddiad hwnnw, gan adfer y budd-daliadau hynny o 1 Ebrill 2015. Fodd bynnag, ni fydd y dewis hwn yn darparu ar gyfer ôl-ddyddio llwyr o hawliau hyd at bwynt y tynnu'n ôl. Mae Llywodraeth yr Alban wedi mabwysiadu'r dewis hwn ar gyfer y cynllun cyfatebol yn yr Alban, a dyma'r amserlen fras y mae'r Gorchymyn drafft atodol yn ei chynnig ar gyfer Cymru, er nad yw'r meini prawf yr un fath.

Dewis 3 - caniatáu i oroeswyr sy'n ailbriodi neu sy'n cychwyn partneriaeth sifil ar ddyddiad penodol yn y gorffennol (1 Ebrill 2015) neu ar ôl hynny, gadw eu hawl. Bydd hyn o fudd i'r unigolion hynny sy'n priodi neu sy'n cychwyn partneriaeth sifil ar ôl y dyddiad hwnnw. Ni fyddai'r dewis hwn yn adfer unrhyw fudd-daliadau a oedd wedi eu tynnu'n ôl cyn y dyddiad hwnnw, ac na fyddai ychwaith o fudd i unrhyw un a ailbriododd neu a gychwynnodd bartneriaeth sifil cyn hynny. Dyma'r dewis y mae'r Swyddfa Gartref wedi ymgynghori arno ar gyfer y cynllun cyfatebol yn Lloegr.

Dewis 4 – caniatáu i oroeswyr sy'n ailbriodi neu sy'n cychwyn partneriaeth sifil ar ddyddiad penodol yn y dyfodol (1 Ebrill 2018 dyweder) neu ar ôl hynny, gadw eu hawl i fudd-daliadau pensiwn. Byddai'r rheol hon o fudd i'r unigolion hynny a fydd yn ailbriodi neu'n cychwyn partneriaeth sifil ar ôl dyddiad penodedig yn y dyfodol, ond nid i'r rhai hynny sydd eisoes wedi gwneud hyn cyn rhyw ddyddiad yn y gorffennol, 1 Ebrill 2015 dyweder, ac ni fyddai'r dewis hwn yn adfer unrhyw fudd-daliadau sydd eisoes wedi eu tynnu'n ôl.

7. O dan ddewisiadau 3 neu 4, byddai'r Gorchymyn yn cynnwys darpariaeth i gadw disgresiwn presennol yr Awdurdodau Tân ac Achub i adfer taliadau i unigolyn mewn profedigaeth a'u collodd drwy ailbriodi neu gychwyn partneriaeth sifil, ond bod ei briodas neu bartneriaeth wedi ei diddymu yn ddiweddarach (neu unigolyn a gafodd brofedigaeth eto). Gallai taliadau o'r fath gael eu hôl-ddyddio i adeg y diddymu neu'r brofedigaeth, pryd bynnag y digwyddodd hynny. Byddai hyn yn cael ei wneud drwy gynnwys darpariaeth yn erthygl 4 o'r Gorchymyn drafft, sy'n dirymu rheol 5 o Ran 3 o Gynllun Digolledu 2007
8. I ddangos y gwahaniaethau rhwng y dewisiadau hyn, mae'r tabl canlynol yn rhoi enghraifft o dri phartner damcaniaethol a gafodd brofedigaeth ac sy'n ailbriodi neu'n cychwyn partneriaeth sifil ar (a) 1 Gorffennaf 2012; (b) 1 Gorffennaf 2015; ac (c) 1 Gorffennaf 2018.

Dyddiad ailbriodi / partneriaeth sifil newydd	Statws presennol	Dewis 1	Dewis 2	Dewis 3	Dewis 4
1 Gorffennaf 2012	Tynnwyd budd-daliadau'n ôl ar 1 Gorffennaf 2012	Budd-daliadau yn cael eu hadfer a'u hôl-ddyddio i 1 Gorffennaf 2012	Budd-daliadau yn cael eu hadfer a'u hôl-ddyddio i 1 Ebrill 2015	Dim adfer budd-daliadau	Dim adfer budd-daliadau
1 Gorffennaf 2015	Tynnwyd budd-daliadau'n ôl ar 1 Gorffennaf 2015	Budd-daliadau yn cael eu hadfer a'u hôl-ddyddio i 1 Gorffennaf 2015	Budd-daliadau yn cael eu hadfer a'u hôl-ddyddio i 1 Gorffennaf 2015	Budd-daliadau yn cael eu hadfer a'u hôl-ddyddio i 1 Gorffennaf 2015	Dim adfer budd-daliadau
1 Gorffennaf 2018	Tynnir budd-daliadau'n ôl ar 1 Gorffennaf 2018	Ni thynnir budd-daliadau'n ôl ar 1 Gorffennaf 2018	Ni thynnir budd-daliadau'n ôl ar 1 Gorffennaf 2018	Ni thynnir budd-daliadau'n ôl ar 1 Gorffennaf 2018	Ni thynnir budd-daliadau'n ôl ar 1 Gorffennaf 2018

9. Yn fras, mae'r dewisiadau hyn mewn trefn haelioni lleihaol: dewis 1 sy'n darparu'r lefel uchaf o ddarpariaeth, gan gynnwys darpariaeth wedi'i hôl-ddyddio, a dewis 4 sy'n darparu'r lefel isaf.
10. Ar sail hynny, gallai dewis 1 gael ei ystyried yr un mwyaf dymunol. Yn bendant, mae'n ymdrin yn llwyr â'r hyn y gellid ei ystyried yn annhegwch hanesyddol tuag at bartneriaid mewn profedigaeth. Er hynny, gallai olygu costau canlyniadol sylweddol i'r Awdurdodau Tân ac Achub. Mae hyn oherwydd bod dyfarndaliadau arbennig ac estynedig yn dilyn marwolaeth o ganlyniad i anaf cymwys yn cael eu hariannu drwy gyllidebau'r Awdurdodau Tân ac Achub yn uniongyrchol ac nid drwy gronfeydd pensiwn. Mae Llywodraeth Cymru yn amheus ynglŷn â mabwysiadu'r dull hwn mewn cyfnod pan fo cyllidebau ar gyfer gwasanaethau rheng flaen o dan bwysau sylweddol. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn ddichonadwy pe byddai'n glir na fyddai beichiau'r costau ôl-weithredol yn rhy uchel ac y gellid ymdopi â hwy.
11. Byddai dewis 2 yn lleihau'r costau hynny drwy ôl-ddyddio budd-daliadau a dynnwyd yn ôl i 1 Ebrill 2015 yn unig. Byddai hyn yn darparu rhyw fudd ôl-weithredol i bob

partner mewn profedigaeth a gafodd ei fudd-daliadau wedi'u tynnu'n ôl, gan amddiffyn ar yr un pryd y budd-daliadau hynny ar gyfer y rhai hynny sy'n ailbriodi neu'n cychwyn partneriaeth sifil yn y dyfodol. O'r dystiolaeth bresennol, hwn yw'r dewis y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio.

12. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ffafrio dewisiadau 3 na 4. Byddai dewis 3 yn creu gwahaniaeth mympwyol rhwng pobl mewn profedigaeth ar sail y dyddiad yn y gorffennol pan wnaethant ailbriodi neu gychwyn perthynas sifil. Ni fyddai rhywun a wnaeth hynny ar 31 Mawrth 2015 yn cael budd o gwbl; ond byddai rhywun a wnaeth hynny ar 1 Ebrill 2015 yn cael budd llawn. Er hynny, ni allai'r naill na'r llall fod yn ymwybodol o hynny ar y pryd. Ac nid yw dewis 4 yn gwneud dim i gywiro'r ymdriniaeth lem o bobl mewn profedigaeth hyd yn hyn: byddai'r dewis hwn ond o fudd i'r rhai hynny sy'n ailbriodi neu sy'n cychwyn partneriaeth sifil yn y dyfodol.
13. Byddai'r Gorchymyn drafft wedi'i atodi yn Atodiad 2 yn gwneud y newidiadau hyn. Mae newidiadau tebyg wedi eu gwneud i'r cynlluniau cyfatebol yn yr Alban gan Lywodraeth yr Alban; mae'r Swyddfa Gartref wedi ymgynghori ar newidiadau posibl yn Lloegr.
14. Mae erthygl 2 yn nodi'r amgylchiadau pan fo'r hawl i bensiwn neu arian rhodd, sydd gan briod neu bartner sifil sy'n goroesi o dan ran C o Gynllun 1992, yn parhau ar ôl i'r unigolyn hwnnw briodi, ailbriodi, cychwyn partneriaeth sifil neu gychwyn partneriaeth sifil ddilynol ar 1 Ebrill 2015, neu ar ôl hynny. Mae hefyd yn adfer pensiynau sydd wedi eu tynnu'n ôl oherwydd deddfwriaeth bresennol ac sy'n weithredol o'r dyddiad hwnnw. Mae'n nodi bod y darpariaethau hyn yn berthnasol i briod neu bartner sifil aelod o Gynllun 1992 pan fu'r aelod hwnnw farw o ganlyniad i anaf a gafwyd wrth ymarfer ei ddyletswyddau fel diffoddwr tân, neu wrth deithio i'r gwaith neu o'r gwaith.
15. Disodlodd Cynllun Digolledu 2007 y darpariaethau cyfatebol o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992. Mae erthygl 4(2) yn diwygio'r trefniadau trosiannol yn erthygl 4 o Orchymyn Cynllun Digolledu 2007 fel y bydd darpariaeth gyfatebol yn berthnasol i ddyfarndaliadau arbennig ac estynedig o dan Gynllun 1992, sy'n ymwneud â phenderfyniadau a wnaed cyn 1 Ebrill 2006 yn ymwneud â pha un a yw'r farwolaeth wedi'i hachosi gan anaf cymwys.
16. Mae erthygl 4(3) o'r Gorchymyn drafft yn dirymu rheol 5 o Ran 3 o'r Cynllun Digolledu er mwyn caniatáu i unigolyn sydd â hawl i bensiwn neu arian rhodd o dan y cynllun hwnnw ei gadw ar ôl priodi, ailbriodi neu gychwyn partneriaeth sifil yn weithredol o 1 Ebrill 2015. Mae budd-daliadau sydd wedi eu tynnu'n ôl cyn y dyddiad hwnnw oherwydd gweithrediad y cynllun yn cael eu hadfer yn weithredol o'r dyddiad hwnnw.

Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygio a Darpariaethau Trosiannol)(Cymru) 2016 (Seibiant Cyfraniadau Pensiwn)

17. Cywirodd y Gorchymyn uchod anghysondeb yng Nghynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) a oedd yn golygu bod yn rhaid i'r aelodau hynny a ymunodd â'r Gwasanaeth Tân rhwng bod yn 18 ac yn 20 oed ac a oedd wedi cronni 30 mlynedd o wasanaeth pensiynadwy barhau i dalu cyfraniadau y tu hwnt i'r pwynt hwnnw, a tan eu bod yn cyrraedd 50 oed, er nad oeddent yn gallu cronni unrhyw fudd-daliadau pensiwn ychwanegol o ganlyniad i hynny. Gwnaeth y Gorchymyn ddarpariaeth nad oedd angen talu cyfraniadau ar ôl cyrraedd 30 mlynedd o wasanaeth, ac ar gyfer ad-dalu unrhyw gyfraniadau a dalwyd ar ôl cyrraedd 30 mlynedd o wasanaeth.

18. Mae'r ddarpariaeth arfaethedig yn erthyglau 2 a 5 yn ei gwneud yn glir nad yw darpariaethau yng Ngorchymyn 2016 yn berthnasol i gyfraniadau'r cyflogwr nac i gyfraniadau ychwanegol y cyflogai i fudd-daliadau pensiwn.

Mân ddiwygiadau eraill

19. Mae diwygiadau arfaethedig eraill i Gynllun 1992 ac i Gynllun Pensiwn 2007 hefyd wedi eu nodi yn y Gorchymyn drafft yn Erthyglau 2(2), 2(4), 2(5) a 3. Er hwylustod cyfeirio, ceir manylion y rhain yn Atodiad 1.

Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007: Enwebu Partneriaid sy'n Cyd-fyw

20. Rhoddwyd manylion dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos Brewster¹ yng Nghylchlythyr W-FRSC(2017) 01, a gyhoeddwyd ar 8 Mawrth 2017 gan Lywodraeth Cymru. Dyfarnodd hwn bod cynllun pensiwn llywodraeth leol Gogledd Iwerddon wedi gwrthod yn anghyfreithlon i bartner a oedd yn cyd-fyw (a fyddai'n gymwys fel arall o dan Reoliadau'r Cynllun) bensiwn goroeswr ar yr unig sail nad oedd ei phartner a oedd wedi marw, fe honnwyd, wedi llenwi ffurflen enwebu yn ei henw, fel oedd yn ofynnol yn rheolau'r cynllun. Gan ystyried y dyfarniad hwn, mae'n bur debygol y byddai'r llysoedd yn barnu bod darpariaethau tebyg mewn cynlluniau pensiwn eraill yn anghyfreithlon.
21. Mae Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 (ac felly, cynllun 2014 wedi'i addasu) yn darparu ar hyn o bryd bod, yn achos marwolaeth aelod o gynllun, gan bartner sy'n cyd-fyw yr hawl i bensiwn goroeswr ar yr amod bod yr aelod wedi llenwi ffurflen enwebu. Nododd cylchlythyr W-FRSC(2017)05, dyddiedig 3 Ebrill 2017, y byddai Llywodraeth Cymru yn diwygio Cynllun 2007 maes o law yn sgil dyfarniad Brewster. Bydd hyn yn golygu cael gwared ar y gofyniad i aelodau cynllun enwebu partner sy'n cyd-fyw i gael budd-daliadau goroeswr; ac os yw unrhyw unigolyn yn gallu dangos ei bod/fod wedi bod mewn perthynas gymwys ag aelod o gynllun sydd wedi marw ar yr adeg y bu farw, yna bydd yr unigolyn yn gymwys i gael budd-daliadau o'r fath, ni waeth pa un a oedd enwebiad blaenorol yn bodoli ai peidio. Caiff y darpariaethau hyn effaith ôl-weithredol o'r pwynt y daeth Cynllun 2007 i rym.
22. Rydym yn bwriadu cynnwys y diwygiad hwnnw yng Ngorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru)(Diwygio) 2018. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod angen ymgynghori ar y diwygiad hwn, o gofio mai dim ond dilyn dyfarniad y Goruchaf Lys y byddwn yn ei wneud. Felly, byddwn yn creu erthygl ddrafft berthnasol yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad, ac yn ei chynnwys yn y gorchymyn terfynol a wneir gan Weinidogion Cymru.
23. Ni effeithir ar gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân eraill yng Nghymru gan ddyfarniad Brewster. Mae Cynllun 1992 yn talu budd-daliadau goroeswr i wŷr a gwragedd priod neu bartneriaid sifil yn unig; ac mae Cynllun 2015 yn eu talu i bartneriaid sy'n cyd-fyw heb fod unrhyw ofyniad am ffurflen enwebu.

RHEOLIADAU CYNLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN (CYMRU)(DIWYGIO) 2018 (Atodiad 3)

¹ [2017] UKSC 8

24. Yn dilyn cyflwyno Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân ar gyfer Cymru yn 2015, nodwyd nifer o fân ddiwygiadau yn ymwneud â Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015, a'r darpariaethau sy'n rheoli'r trosglwyddiad o aelodau o Gynllun 1992 a Chynllun 2006 i Gynllun 2015.
25. Y cynigion yw i gynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân gael eu diwygio fel y nodir yn y Gorchymyn drafft yn Atodiad 3 ac fel a ganlyn:-

Mae **Rheoliad 4** y Gorchymyn drafft yn diwygio Rheoliad 80A o Reoliadau 2015 (a fewnosodwyd gan Atodlen 1 i Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru)(Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2015). Mae hyn yn ymdrin â hawl aelodau trosiannol i gymudo rhan o unrhyw bensiwn afiechyd haen isaf, y gallai gael ei ddyfarnu iddynt, i gyfandaliad. Fel y mae wedi ei eirio ar hyn o bryd, mae'r rheoliad yn nodi darpariaethau penodol yn ymwneud â chymudo cyfandaliad ar gyfer aelodau sydd wedi trosglwyddo o Gynllun 2006 i Gynllun 2015. Mae'r diwygiad arfaethedig yn cyflawni'r darpariaethau cyfreithiol ar gyfer aelodau sydd wedi trosglwyddo o Gynllun 1992.

Mae **rheoliad 8(3)** yn diwygio Paragraffau 37 a 38 o Atodlen 2 o Reoliadau 2015 (a fewnosodwyd gan Atodlen 1 i Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru)(Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2015). Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â statws aelodau sy'n cael eu hystyried ar gyfer ymddeoliad oherwydd afiechyd gan ymarferydd meddygol annibynnol cymwys ar adeg eu dyddiad trosglwyddo, ac sydd wedyn yn parhau i fod yn aelodau gweithredol o Gynllun 2015. Mae aelodau o'r fath yn ymuno â Chynllun 2015 ar yr adeg a bennir yn y darpariaethau hyn. Mae angen diwygio'r ddarpariaeth ar gyfer aelodau sy'n cael eu hystyried ar gyfer ymddeoliad oherwydd afiechyd gan ymarferydd meddygol annibynnol cymwys ar adeg eu dyddiad trosglwyddo, ac sydd wedyn yn cael dyfarniad afiechyd ac yn ymddeol o ganlyniad i hynny. O dan y diwygiadau arfaethedig i baragraffau 37 a 38, byddai aelodau o'r fath yn aros yn eu cynllun pensiwn gwreiddiol, gan osgoi'r angen o gyfnod aelodaeth gofynnol o Gynllun 2015. Daw'r diwygiad hwn i rym ar yr un pryd ag y bydd y Gorchymyn yn Atodiad 3 yn dod i rym.

Camau Nesaf

26. Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd barn ymgynghoreion, yn ogystal ag unrhyw dystiolaeth yn ymwneud â phob agwedd ar yr ymgynghoriad hwn erbyn Rhagfyr 21. Croesewir sylwadau ar y cwestiynau canlynol yn arbennig:

Cwestiwn 1

Mae Paragraff 6 o'r ddogfen ymgynghori yn darparu 4 dewis posibl mewn cysylltiad ag ôl-gymhwyso'r darpariaethau yn ymwneud â budd-daliadau goroeswyr pan eu bod yn ailbriodi neu gychwyn partneriaeth sifil. A oes gennych chi unrhyw safbwyntiau ar y dewisiadau hyn, gan gynnwys unrhyw safbwyntiau ar yr oblygiadau o ran costau i'r Awdurdodau Tân ac Achub?

Cwestiwn 2

O gofio eich ateb i gwestiwn 1, a oes gennych chi unrhyw safbwyntiau ar y diwygiadau a nodir yn Erthyglau 2, 4(2) a 4(3) o'r Gorchymyn Drafft yn Atodiad 2 – Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2018? Mae'r rhain wedi eu drafftio gan ddefnyddio'r egwyddorion a nodir yn newis 2 yr ymgynghoriad.

Cwestiwn 3

A oes gennych chi unrhyw safbwyntiau ar yr Erthyglau eraill yng Ngorchymyn drafft Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2018 yn Atodiad 2, sy'n ymwneud â Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygio a Darpariaethau Trosiannol)(Cymru) 2016 (Seibiant Cyfraniadau Pensiwn) a mân ddiwygiadau eraill?

Cwestiwn 4

A oes gennych chi unrhyw safbwyntiau ar y rheoliadau drafft a nodir yn y Gorchymyn drafft yn Atodiad 3 - Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru)(Diwygio) 2018?

Cwestiwn 5

Nid ydym yn credu bod y polisi hwn yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac yn trin yr iaith yn llai ffafriol na'r Saesneg, nac y gellid ei ailffurfio na'i adolygu i gael effeithiau cadarnhaol. Os nad ydych yn cytuno â hyn, byddem yn croesawu eich sylwadau ar y mater hwn.

Cwestiwn 6

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau, ond a oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu codi yn y maes hwn?